# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 4

ADOLYGIADAU O AELODAETH CYRFF CYHOEDDUS

### 50 Adolygiadau o gyrff cyhoeddus cymwys

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o aelodaeth un neu ragor o gyrff cyhoeddus cymwys penodedig.

(2) Pan fo'r Comisiwn wedi cynnal adolygiad o dan yr adran hon rhaid iddo gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru sy'n nodi a yw'n argymell y dylid newid aelodaeth y corff cyhoeddus.

(3) Caniateir, yn benodol, i gyfarwyddyd o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn—

- (a) ystyried nifer aelodau'r corff (neu'r cyrff),
- (b) ystyried unrhyw gategorïau aelodaeth (gan gynnwys aelodaeth leyg) a nifer yr aelodau ym mhob categori,
- (c) ystyried y priodoleddau, y profiadau, y sgiliau neu'r cymwysterau y dylai'r aelodau feddu arnynt,
- (d) ystyried unrhyw faterion eraill a bennir sy'n berthnasol i'r aelodaeth,
- (e) dilyn unrhyw brosesau a bennir wrth gynnal adolygiad,
- (f) llunio ei adroddiad ar ffurf ac mewn modd a bennir,
- (g) rhoi sylw i unrhyw ffactorau neu faterion a bennir.

(4) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

(5) At ddibenion yr adran hon mae corff yn "corff cyhoeddus cymwys"—

- (a) os nad yw'n awdurdod lleol,
- (b) os yw'n ofynnol o dan unrhyw ddeddfiad i'w aelodaeth gynnwys—

(i) aelod o awdurdod lleol, neu

(ii) person a benodir gan awdurdod lleol, ac

(c) os yw'n arfer swyddogaethau—

(i) sydd wedi eu rhoi gan Ddeddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu

(ii) a allai gael eu rhoi gan Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(6) Nid yw'r adran hon yn cyfyngu ar y pŵer cyfarwyddo cyffredinol o dan adran 14.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 50 mewn grym ar 30.9.2013, gweler **a. 75(2)(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, RHAN 4.